# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

**RHAN 2**

NEWID YN YR HINSAWDD

*Cydymffurfio â thargedau allyriadau: datganiadau gan Weinidogion Cymru*

## 43 Datganiadau ar gyfer blynyddoedd targed interim a 2050

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) paratoi datganiad ar gyfer pob blwyddyn darged interim ac ar gyfer y flwyddyn 2050 yn unol â'r adran hon, a

(b) gosod pob datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.

(2) Rhaid i ddatganiad o dan yr adran hon ddatgan, mewn perthynas â phob nwy tŷ gwydr, gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.

(3) Rhaid iddo—

(a) datgan cyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau net Cymru neu a ddidynwyd ohono am y flwyddyn, a

(b) rhoi manylion am nifer yr unedau hynny a'r math o unedau.

(4) Rhaid iddo ddatgan swm cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn.

(5) Penderfynir a gyrhaeddwyd targed allyriadau interim neu darged allyriadau 2050 drwy gyfeirio at yr wybodaeth yn y datganiad ar gyfer y flwyddyn y mae'r targed yn ymwneud â hi.

(6) Rhaid i'r datganiad egluro'r rhesymau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn gyfrifol am y ffaith bod y targed wedi ei gyrraedd, neu nad yw ei gyrraedd.

(7) Caniateir i ddatganiad o dan yr adran hon ar gyfer blwyddyn gael ei gyfuno â'r datganiad o dan adran 41 ar gyfer y cyfnod cyllidebol sy'n cynnwys y flwyddyn honno.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Cydymffurfio â thargedau allyriadau: datganiadau gan Weinidogion Cymru. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 43 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Cydymffurfio â thargedau allyriadau: datganiadau gan Weinidogion Cymru.